

Ebrill 2006

Bydd Cyngor Rheolaeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt i hybu gwell perfformiad o ran rheoli ar bob lefel yn yr economi.

Fel rhan o'r dasg honno, rydym yn annog rheolwyr fel chi i ystyried sut gallan nhw ehangu eu galluoedd eu hunain a gwella yn eu gwaith.

Nod y daflen grynodeb yma, a fydd yn cael ei chyhoeddi bob mis, yw'ch helpu chi i ganolbwyntio yn fwy eglur ar yr heriau ymarferol sy'n eich wynebu.

Nid ydym yn honni bod yr holl atebion gennym, ond rydym yn gobeithio y bydd y cwestiynau yma'n ysgogi ystyriaeth a fydd yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi am roi'ch barn ar unrhyw rai o'r materion sy'n cael eu codi, cysylltwch â ni.

gwyneth.stroud  
@crc-wmc.org.uk



Cyngor Rheolaeth Cymru  
Wales Management Council



### Carreg Sarn ynteu Clec Fawr?

Dywedodd Lloyd George un tro: "Peidiwch ag ofni cymryd cam mawr pan fydd angen. Allwch chi ddim croesi gagendor â dau gam bychan."



Fel rheolwr, a fydddech chi'n gallu barnu pa bryd fydd angen newid radical yn eich tîm neu'ch sefydliad? Ydych chi wedi camu'n ôl o 'Glec Fawr' rhywdro er mwyn arddel strategaeth fwy graddol y cerrig sarn? Wnaeth hynny lwyddo, ynteu a achoswyd mwy o broblemau na chafodd eu datrys?

### Cadw'r sêr

Darganfu arolwg newydd o reolwyr canol y DU gan gylchgrawn Management Today mai un ym mhob dwsin yn unig ohonyn nhw oedd yn disgwyl bod yn yr un swydd mewn pum mlynedd, a dim ond un ym mhob pedwar oedd yn disgwyl bod yn gweithio i'r un sefydliad ag y maen nhw heddiw.



Efallai bod trosiant mor fawr yn anochel ymhlith esgynwyr uchelgeisiol yn y gweithlu. Fodd bynnag, beth yw'ch strategaeth ar gyfer sicrhau bod y rheolwyr canol sydd yn aros ymhlith y rheiny sydd o'r gwerth mwyaf i'ch busnes?

### Rheswm i hyfforddi

Mae ymchwil yng Nghymru yn dangos mai'r cwmnïau llai yw'r rhai sydd lleiaf tebygol o fuddsoddi mewn hyfforddi eu rheolwyr. Bydd llawer yn tueddu i ddadlau mai ychydig gymhelliant sydd ganddyn nhw i wneud hyn oherwydd mai ychydig yn unig y maen nhw'n ei ennill pan fyddan nhw'n gwneud buddsoddiad o'r fath.



Bai pwy yw hyn? Os gwnaethoch chi fuddsoddi mewn hyfforddi'ch rheolwyr yn y gorffennol, a wnaethoch chi osod amcanion penodol cynt a mesur wedyn p'un a oedd yr amcanion wedi'u cyflawni ai peidio?

### Diffwsió "bomiau amser" yn y swyddfa

Yn ôl pleidlais Office Angels diweddar, mae un gweithiwr ym mhob tri wedi ystyried gadael ei swydd oherwydd arferion cydweithwyr sy'n cythruddo



Mae'n bosibl eich bod yn gwybod sut rydych chi fel rheolwr yn cyd-dynnu â phob aelod o'ch staff, ond i ba raddau y gwyddoch chi am eu perthynas â'i gilydd? Sut allwch chi ddod i ddeall hyn, a sut allwch chi ddatrys unrhyw broblemau sy'n mudferwi heb iddyn nhw waethygu a rhwygo'r tîm?

### Gormod ynteu rhy ychydig?

Yn ôl erthygl ddiweddar yn yr Harvard Business Review, bydd cwmnïau nad ydyn nhw'n gwbl iach yn dioddef naill ai o ormod o reolaeth o'r brig neu ddim digon ohoni.



Mae sicrhau bod y cydbwysedd yn iawn wrth reoli yn un o heriau enfawr rheolaeth. Os yw pethau'n mynd yn ddrwg i'r cwmni, a oes gennych chi bobl ddibynadwy y gallwch fynd atyn nhw am gyngor diduedd i ddweud wrthyhych a yw'ch llaw ar y llyw yn rhyw drwm neu'n rhy ysgafn?

### Rhywbeth Da i'w Ddarllen

Mae "The Servant Leader" gan Robert Neuschel (Kogan Page) wedi dod yn llyfr clasurol modern, yn ôl cylchgrawn Director. Mae'r neges yn un syml: pwrpas yr arweinydd sy'n gwasanaethu yw helpu dilynwyr i ddod yn arweinwyr ar bob lefel yn y sefydliad. Mae'n teimlo bod modd cyfuno rheolaeth ac arweinyddiaeth dda mewn un unigolyn, sef barn nad yw pawb yn ei rhannu o bosib. Llyfr darllenadwy iawn y byddwch chi'n dychwelyd ato dro ar ôl tro.